| | | |
|---|---|---|
| **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** | | **NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES** |
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2002 Rhif (Cy. )** | | **2002 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |
| **Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor Ystyriaethau Anfasnachol) (Cymru) 2002** | | **The Local Government Best Value (Exclusion of Non-commercial Considerations) (Wales) Order 2002** |
| | | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>*(This note does not form part of the Order)* |
| Mae Adran 17(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn cynnwys rhestr o faterion (materion anfasnachol) na chaiff awdurdod cyhoeddus arfer y swyddogaethau a restrir yn adran 17(4) o'r Ddeddf honno o'u herwydd, sef swyddogaethau sy'n cynnwys swyddogaethau mewn perthynas â chontractau cyflenwadau neu weithfeydd cyhoeddus arfaethedig. | | Section 17(5) of the Local Government Act 1988 (the "1988 Act") contains a list of matters (non-commercial matters) by reference to which a public authority may not exercise the functions listed in section 17 (4) of that Act, which include functions in relation to proposed public supply or works contracts with the authority. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y materion a bennir yn adran 17(5)(a) a (d) o Ddeddf 1988 yn peidio â bod yn faterion anfasnachol at ddibenion yr adran honno . Mae'r materion o dan sylw yn ymwneud â thelerau ac amodau cyflogi etc gweithlu'r contractiwr ac ymddygiad contractwyr neu eu gweithwyr mewn anghydfodau diwydiannol. | | This Order provides for the matters specified in section 17(5)(a) and (d) of the 1988 Act to cease to be non-commercial matters for the purposes of that section. The matters concerned relate to the terms and conditions of employment etc. of the contractor's workforce and the conduct of contractors or their workers in industrial disputes. |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2002 Rhif (Cy. )** | | **2002 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |
| **Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor Ystyriaethau Anfasnachol) (Cymru) 2002** | | **The Local Government Best Value (Exclusion of Non-commercial Considerations) (Wales) Order 2002** |
| *Wedi'i wneud 2002*<br><br>*Yn dod i rym 4 Mawrth 2002* | | *Made 2002*<br><br>*Coming into force 4th March 2002* |

| | | |
|---|---|---|
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 19(1), (2) a 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999**(a)**: | | The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred upon it by section 19(1), (2) and 29 of the Local Government Act 1999**(a)**: |
| **Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli** | | **Name, commencement, application and interpretation** |
| **1.**-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor Ystyriaethau Anfasnachol) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 4 o Mawrth 2002. | | **1.**-(1) The name of this Order is the Local Government Best Value (Exclusion of Non-commercial Considerations) (Wales) Order 2002 and it shall come into force on 4th of March 2002. |
| (2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r rhai sy'n dod o fewn adran 1(1)(d) neu (e) o Ddeddf 1999 (awdurdodau heddlu a thân). | | (2) This Order applies to all best value authorities in Wales except those falling within section 1(1)(d) or (e) of the 1999 Act (police and fire authorities). |
| (3) Yn y Gorchymyn hwn Ystyr "Deddf 1988" (*"the 1988 Act"*) Yw Deddf Llywodraeth Leol 1988**(b);** | | (3) In this Order "the 1988 Act" (*"Deddf 1988"*) means the Local Government Act 1988**(b)**; |
| **Materion nad ydynt i fod yn faterion anfasnachol mewn perthynas ag awdurdodau gwerth gorau** | | **Matters not to be non-commercial matters in relation to best value authorities** |

| | | |
|---|---|---|
| 2. Bydd y materion a bennir yn adran 17 (5)(a) a (d) o Ddeddf 1988 (contractau awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill: hepgor ystyriaethau anfasnachol) yn peidio â bod yn faterion anfasnachol at ddibenion yr adran honno. | | **2.** The matters specified in section 17(5)(a) and (d) of the 1988 Act (Local and other public authority contracts: exclusion of non-commercial considerations) shall cease to be non-commercial matters for the purposes of that section. |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(c)**. | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(c)**. |
| | | |
| 2002 | | 2002 |
| Llywydd y Cynulliad<br><br>Cenedlaethol | | The Presiding Officer<br><br>of the National Assembly |

**ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]**

(a) 1999 p.27.

(b) 1988 p.9.

(c) 1998 p.38.

(a) 1999 c.27.

(b) 1988 c.9.

(c) 1998 c.38.